



Polisi Addysg Bersonol a Chymdeithasol Ysgol Gyfun Gwynllyw

1. Diffiniad o addysg bersonol a chymdeithasol

Mae ABCh yn cynnwys popeth y mae ysgol neu goleg yn ymgymryd ag ef i gefnogi a hybu datblygiad personol a chymdeithasol a lles y dysgwyr.

Ein nod yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yw datblygu pob dysgwr i'w llawn botensial er mwyn eu galluogi i ddod yn ddinasyddion cyfrifol a chyflawn. Ymrown i hyrwyddo safon uchel o ran disgyblaeth gwaith a chyfrifoldeb a pharch at eu hunain ac eraill gan werthfawrogi amrywiaeth a hawliau unigolion a grwpiau.

2. Gofynion statudol

Mae ABCh yn elfen statudol yn y cwricwlwm sylfaenol i ddisgyblion 5 i 16 oed. Cyfrifoldeb yr ysgolion yw cynllunio a chyflwyno darpariaeth ABCh eang, gytbwys i ddiwallu anghenion penodol yr holl ddysgwyr.

3. Nodau ABCh

Mae ABCh yn adlewyrchu nodau'r *Fframwaith ABCh ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (2008) a byddwn yn dilyn themâu ABCh Llywodraeth Cymru sef:

- Dinasyddiaeth weithgar
- Iechyd a lles emosiynol
- Datblygiad Moesol ac ysbrydol
- Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes
- Datblygu cynaladwyaeth a dinasyddiaeth fyd eang.

Er mwyn sicrhau llwyddiant y polisi a'r rhaglen ABCh bydd y pwyntiau canlynol yn cael eu hystyried:

- Cysylltiadau gydag asiantaethau allanol a'r gymuned
- Polisiâu eraill sy'n ymwneud ag ABCh (a restrir isod)
- Digon o her ac amrywiaeth o weithgareddau i ysgogi'r dysgwyr
- Perthynas seiliedig ar barch rhwng dysgwyr a'u hathrawon

4. Cysylltiadau â datganiadau polisi eraill

Mae polisiâu eraill yn cyfeirio at faterion sy'n gysylltiedig ag ABCh a dylid darllen y rheiny ar y cyd â'r datganiad polisi hwn sef:

- addysg rhyw a pherthnasoedd

- addysg camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys rheoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau
- polisi disgyblaeth
- diogelwch plant
- cydraddoldeb
- cydraddoldeb hiliol
- polisi gwrth fwlio
- polisi gyrfaoedd a byd gwaith
- polisi cynladwyedd a amgylcheddol

5. Cyflwyno ABCh

Yn **CA3** caiff y rhaglen ABCh ei chyflwyno drwy gyfrwng diwrnodau ABCh penodol sy'n cael eu trefnu gan y cydlynnydd ABCh. Ceir cyflwyniadau pwrpasol ar elfennau gwahanol o'r rhaglen gan asiantaethau allanol a bydd cyfnod o werthuso a myfyrio yn dilyn y dyddiau hyn.

Yn CA4 mae dysgwyr yn derbyn awr o wersi yr wythnos ar gylchdro sy'n cyfnewid bod 6 wythnos fel rheol. Yn y gwersi hyn cyflwynir:

- Addysg Grefyddol (1)
- Gyrfaoedd a Byd Gwaith
- Addysg Rhyw
- Addysg Grefyddol (2)
- Dinasyddiaeth – Cynladwyaeth Fyd Eang
- Dinasyddiaeth Foesol a Chymdeithasol

6. Rheoli a chyd-drefnu ABCh

Cyfrifoldeb y cydlynnydd ABCh yw trefnu'r rhaglen a chysylltu gydag asiantaethau allanol pan yn ofynnol i wneud hynny. Fel rhan o'r rôl bydd disgwyl i'r cydlynnydd gadw'n gyfredol ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau yn ymwneud ag ABCh gan readru'r wybodaeth i'r Pennaeth Cynorthwyol sy'n arweinydd cyswllt dros ABCh ac unrhyw aelodau eraill perthnasol o staff.

Rôl y Pennaeth Cynorthwyol fydd cynnig cymorth ac arweiniad yn ôl y galw yn ogystal â thrafod unrhyw faterion fydd yn codi gyda gweddill y Tîm Arwain.

7. Cynnwys ABCh

Mae ABCh yn cynnwys datblygu sgiliau, hybu agweddau a gwerthoedd cadarnhaol, ac ennill gwybodaeth a dealltwriaeth yn unol â'r fframwaith ABCh.

Caiff sawl elfen o ABCh eu trafod fel rhan o waith pynciau unigol o fewn yr ysgol gan gynnwys:

- Daearyddiaeth
- Addysg Grefyddol
- Hanes
- Cymraeg
- Saesneg
- Gwyddoniaeth
- Drama
- Addysg Gorfforol

Mae gan y staff adnabyddiaeth dda o'r dysgwyr a'u hangenion a'u cefndir. Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau nad yw'r sesiynnau ABCh yn debygol o achosi poen meddwl neu niwed emosiynol i ddysgwr arbennig.

O bryd i'w gilydd bydd achosion arbennig yn codi o fewn yr ysgol neu'r gymuned ehangach a bydd y rhaglen ABCh yn hyblyg i ymdrin â'r materion hynny yn ôl gofynion y dysgwyr.

8. Monitro a gwerthuso

Yn CA3 bydd cyfnod o fyfyrion a gwerthuso gan y dysgwyr e mwyn adlewyrchu ar yr hyn a ddysgwyd a nodi eu barn am y gweithgarwch a lleisio dymuniadau at y dyfodol a bydd y cydlynnydd ABCh yn coladu'r wybodaeth ac yn gweithredu'n ôl y galw.

Bydd dysgwyr CA4 yn gwerthuso'u datblygiad a'r hyn a ddysgwyd ar ddiwedd pob elfen o'r cylchdro.

9. Datblygu proffesiynol parhaus

Bydd y cydlynnydd ABCh yn cydweithio gyda'r swyddogion dynodedig Amddiffyn Plant o fewn yr ysgol i drefnu hyfforddiant yn ymwneud â'r elfen hon ar gyfer staff yn ogystal â threfnu unrhyw hyfforddiant arall angenrheidiol.

Cyfrifoldeb y cydlynnydd yw hysbysu'r Pennaeth Cynorthwyol a'r staff cyfan o unrhyw ddatblygiadau ym maes ABCH a adolygu cynlluniau gwaith a'r rhaglen a gynnigir yn gyson gan lunio adnoddau addas ar gyfer yr athrawon sy'n dysgu'r gwersi. Bydd y cydlynnydd hefyd yn gyfrifol am archebu adnoddau cyfoes ac ysgogol ar gyfer datblygiad y dysgwyr.

11. Trefniadau ar gyfer adolygu'r polisi

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn unol â chylch adolygu polisiâu'r ysgol (gweler isod). Bydd llais y dysgwyr yn cael ei ystyried wrth ail lunio'r polisi ble bo hynny'n addas.

Derbyniwyd gan y Llywodraethwyr: Mawrth 2014

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Cyfnod cyn adolygu: 2 flynedd

Dyddiad Adolygu: Mawrth 2016